

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU – TACSIS A MATERION ERAILL  
(ANSTATUDOL)**

**a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron ac o bell drwy fideo gynadledda ddydd Iau, 05 Hydref 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), y Cynghorwyr Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan a John Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Gareth Lloyd

**Swyddogion yn bresennol:** Mrs Carwen Evans, Rheolwr Corfforaethol - Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad; Miss Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu; Mr Gareth Rees, Uwch Swyddog Trwyddedu; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Democraidaidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd a Safonau

(10:05am-11:20am)

- 1 **Ymddiheuriadau**  
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Wyn Evans a Caryl Roberts am na fedrent ddod i'r cyfarfod.
- 2 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**  
Dim.
- 3 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 yn gywir.

**Materion yn codi**

Dim.

- 4 **Diweddariad Cyffredinol - Tacsis a materion eraill (Anstatudol)**  
Ystyriwyd y diweddariad cyffredinol ynghylch tacsis a materion eraill (Anstatudol). Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn hysbysu'r Aelodau o waith yr Adain Drwyddedu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd.
  - Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru)
  - Ymgynghoriad – Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru.
  - Wythnos Drwyddedu Genedlaethol 2023 - 12-16 Mehefin 2023

Cynllun “Dywedwch Wrthym Unwaith” y Llywodraeth a oedd bellach yn cynnwys trwyddedau a hawlenni.

Yn dilyn cwestiynau o’r llawr, CYTUNWYD:

(i) i nodi’r adroddiad er gwybodaeth; ac

(ii) i groesawu cynllun “Dywedwch Wrthym Unwaith” Wythnos Drwyddedu Genedlaethol 2023 (12-16 Mehefin 2023) a oedd bellach yn cynnwys trwyddedau a hawlenni gan y byddai hyn yn lleihau biwrocratiaeth yn y system.

Hefyd, awgrymodd yr Aelodau y dylai swyddogion y gwasanaeth ystyried cynnal eu harchwiliadau o fusnesau ar y cyd, pe byddai unrhyw fusnes yn y Sir yn gofyn am hynny. Dywedwyd bod hyn wedi’i wneud yng nghyswllt rhai archwiliadau, ac y byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn y dyfodol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_